UNIVERSITY OF SOUTH WALES HEC
PRIFYSGOL DE CYMRU CAU

BWRDD Y LLYWODRAETHWYR

DATGANIAD O'R PRIF GYFRIFOLDEBAU

Mae Bwrdd y Llywodraethwyr wedi cytuno y dylid cyhoeddi'r Datganiad o Brif Gyfrifoldebau hwn. Mae'r Datganiad yn crynhoi prif gyfrifoldebau Bwrdd y Llywodraethwyr, ochr yn ochr â rhai'r Is-ganghellor, Gweithrediaeth, Deoniaid a Chyfarwyddwyr, a rhai'r Bwrdd Academaidd, ac mae'n deillio o Erthygl 3 Erthyglau Llywodraethu'r Brifysgol (sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad I). Mae'r Datganiad hefyd yn manylu ar y cyfrifoldebau hynny sydd gan Fwrdd y Llywodraethwyr y mae'n eu cadw iddo'i hun a'r rhai y mae wedi'u dirprwyo i'w Bwyllgorau neu i'r Is-Ganghellor.

Mae Bwrdd Cyfarwyddwyr Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC) a Choleg Merthyr Tudful (MTC) yn atebol i Fwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol, sef unig 'aelod' y cwmnïau hyn. Mae pwyllgorau Bwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol yn gweithredu fel pwyllgorau ar gyfer Byrddau Cyfarwyddwyr CBCDC a MTC fel y bo'n briodol, ac eithrio i'r graddau bod gan y Byrddau hynny (gyda chytundeb Bwrdd y Brifysgol) eu trefniadau eu hunain*.

Mae gan Fyrddau Cyfarwyddwyr CBCDC a MTC gyfrifoldeb uniongyrchol dros iechyd a diogelwch a materion yn ymwneud â myfyrwyr yn eu colegau priodol. Mae'r cyfrifoldeb am ddyfarnu Cymrodoriaethau Er Anrhydedd CBCDC (gan adrodd canlyniadau i Fwrdd y Brifysgol) yn disgyn yn uniongyrchol ar Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg.

** mae hyn yn caniatáu i feysydd cyfrifoldeb (am resymau cyfreithiol neu synhwyrol eraill) ddisgyn gyda chytundeb yn uniongyrchol i'r Byrddau hynny*

1. Cyfrifoldebau Bwrdd y Llywodraethwyr

1.1 Cyfrifoldebau a sefydlwyd o dan yr Erthyglau Llywodraethu:

Mae Bwrdd y Llywodraethwyr yn gyfrifol am y canlynol:

a) Pennu cymeriad a chenhadaeth addysgol y Brifysgol a goruchwylio ei gweithgareddau;

b) Defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau, hyfywedd y sefydliad a'r Gorfforaeth a diogelu ei asedau;

c) cymeradwyo amcangyfrifon blynyddol o incwm a gwariant;

ch) penodi, graddio, gwahardd dros dro, diswyddo a phennu cyflog ac amodau gwasanaeth deiliaid uwch swyddi ac aseinio ac arfarnu'r Prif Swyddog a Chlerc i Fwrdd y Llywodraethwyr, os nad yw deiliad y swydd honno yn aelod o staff y Brifysgol;

d) gosod fframwaith ar gyfer cyflog ac amodau pob aelod arall o staff.

1.2 Yn ogystal, mae Bwrdd y Llywodraethwyr wedi cytuno ar y cyfrifoldebau a ganlyn:

a) pennu gweledigaeth strategol y Brifysgol, ei chynlluniau busnes hir dymor, a dangosyddion perfformiad hanfodol (CPI), a sicrhau bod y rhain yn bodloni buddiannau budd-ddeiliaid;

b) cymeradwyo a monitro cyllidebau blynyddol;

c) monitro perfformiad sefydliadol yn erbyn cynlluniau a CPI cymeradwy, sy'n cael eu meincnodi lle bynnag y bo'n bosibl ac yn briodol yn erbyn sefydliadau addysg uwch tebyg eraill;

ch) sicrhau sefydlu a monitro systemau rheolaeth ac atebolrwydd, gan gynnwys rheolaethau ariannol a gweithredol ac asesu risg, gweithdrefnau clir ar gyfer ymdrin â chwynion mewnol, ac ar gyfer rheoli gwrthdaro buddiannau;

d) cymeradwyo gweithdrefnau sy'n ymwneud ag atal a diswyddo staff a gweithdrefnau cwyno staff;

dd) cymeradwyo gweithdrefnau sy'n ymwneud ag ymddygiad myfyrwyr (gan gynnwys atal dros dro a diarddel), gwahardd myfyrwyr ar sail academaidd, a chwynion myfyrwyr;

e) cymeradwyo cyfansoddiad Undeb Myfyrwyr y Brifysgol a'i chyllideb flynyddol;

f) cynnal cyfrifon a phenodi archwilwyr;

ff) cymeradwyo cyfansoddiad y Bwrdd Academaidd.

2. Cyfrifoldebau'r Is-Ganghellor

2.1 Cyfrifoldebau a sefydlwyd o dan yr Erthyglau Llywodraethu:

Yn amodol ar gyfrifoldebau Bwrdd y Llywodraethwyr, y Pennaeth fydd prif weithredwr y Brifysgol a bydd yn gyfrifol am y canlynol:

a) gwneud cynigion i Fwrdd y Llywodraethwyr am gymeriad addysgol a chenhadaeth y Brifysgol, a gweithredu penderfyniadau Bwrdd y Llywodraethwyr;

b) trefniadaeth, cyfeiriad a rheolaeth y Brifysgol ac arweinyddiaeth y staff;

c) penodi, aseinio, graddio, gwerthuso, atal, diswyddo, a phenderfynu - o fewn y fframwaith a osodwyd gan Fwrdd y Llywodraethwyr - ar gyflog ac amodau gwasanaeth staff heblaw deiliaid uwch swyddi; ac aseinio a gwerthuso deiliaid uwch swyddi ac eithrio'r Pennaeth a Chlerc Bwrdd y Llywodraethwyr, os nad yw deiliad y swydd honno yn aelod o staff y Brifysgol;

ch) penderfynu, ar ôl ymgynghori â'r Bwrdd Academaidd, ar weithgareddau academaidd y Brifysgol, a phenderfynu ar ei gweithgareddau eraill;

d) paratoi amcangyfrifon blynyddol o incwm a gwariant, i'w hystyried gan Fwrdd y Llywodraethwyr, ac ar gyfer rheoli cyllideb ac adnoddau, o fewn yr amcangyfrifon a gymeradwywyd gan Fwrdd y Llywodraethwyr; a

dd) chynnal disgyblaeth myfyrwyr ac, o fewn y rheolau a'r gweithdrefnau a ddarperir yn yr Erthyglau, atal neu ddiarddel myfyrwyr ar sail ddisgyblu a gweithredu penderfyniadau i ddiarddel myfyrwyr am resymau academaidd.

2.2 Yn ogystal, mae Bwrdd y Llywodraethwyr wedi cytuno ar y cyfrifoldebau a ganlyn:

a) gwneud cynigion i Fwrdd y Llywodraethwyr ynghylch gweledigaeth strategol y Brifysgol, cynlluniau busnes hir dymor, dangosyddion perfformiad hanfodol a chyllidebau blynyddol;

b) gweithredu fel Swyddog Cyfrifyddu, sy'n gyfrifoldeb personol i'r Is-ganghellor, a sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â'r telerau ac amodau a nodir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar gyfer defnyddio eu cyllid ac, os oes angen, cyflwyno tystiolaeth gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cyflawnir y cyfrifoldebau hyn gyda chefnogaeth uwch dîm rheoli. Mae'r Is-ganghellor ac aelodau'r uwch dîm rheoli yn gweithio'n agos gyda Deoniaid y Cyfadrannau, Cyfarwyddwyr meysydd gwasanaeth, ac Ysgrifennydd y Brifysgol a Chlerc y Llywodraethwyr.

3. Cyfrifoldebau'r Bwrdd Academaidd

3.1 Cyfrifoldebau a sefydlwyd o dan yr Erthyglau Llywodraethu:

Yn amodol ar ddarpariaethau'r Erthyglau hyn, o ran cyfrifoldeb cyffredinol Bwrdd y Llywodraethwyr, a chyfrifoldebau'r Pennaeth, bydd y Bwrdd Academaidd yn gyfrifol am y canlynol:

a) materion cyffredinol yn ymwneud ag ymchwil, ysgolheictod, addysgu a chyrsiau yn y Brifysgol, gan gynnwys meini prawf ar gyfer derbyn myfyrwyr; penodi a diswyddo arholwyr mewnol ac allanol; polisïau a gweithdrefnau asesu ac arholi perfformiad academaidd myfyrwyr; cynnwys y cwricwlwm; safonau academaidd a dilysu ac adolygu cyrsiau; gweithdrefnau dyfarnu cymwysterau a theitlau academaidd anrhydeddus; a'r gweithdrefnau i ddiarddel myfyrwyr am resymau academaidd. Bydd cyfrifoldebau o'r fath yn destun gofynion cyrff dilysu ac achredu;

b) ystyried datblygiad gweithgareddau academaidd y Brifysgol a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cefnogi a chynghori'r Is-Ganghellor a Bwrdd y Llywodraethwyr ar y materion hyn; a

c) chynghori ar faterion eraill tebyg y gall Bwrdd y Cyfarwyddwyr a'r Pennaeth eu cyfeirio at y Bwrdd Academaidd.

3.2 Yn ogystal, mae Bwrdd y Llywodraethwyr wedi cytuno ar y cyfrifoldebau a ganlyn:

a) cymeradwyo polisïau a gweithdrefnau academaidd sy'n ymwneud ag ymchwil, ysgolheictod ac addysgu, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â derbyn ac asesu myfyrwyr, cynnwys y cwricwlwm, safonau academaidd a sicrhau ansawdd, dyfarnu cymwysterau, a gwahardd myfyrwyr ar sail academaidd.

4. Dirprwyo Cyfrifoldebau Bwrdd y Llywodraethwyr

Pwyllgorau

Mae crynodeb o rôl pob Pwyllgor, yn seiliedig ar y cylch gorchwyl y cytunwyd arno gan Fwrdd y Llywodraethwyr, wedi'i gynnwys yn Atodiad II i'r papur hwn. Mae rôl y Pwyllgorau yn gynghorol i'r Bwrdd ond gall y Bwrdd ddirprwyo materion penodol o bryd i'w gilydd i'w penderfynu gan Bwyllgor. Mae'r materion penodol canlynol wedi'u dirprwyo i'w cymeradwyo gan Bwyllgorau unigol drwy eu cylch gorchwyl y cytunwyd arno:

1) *Pwyllgor Archwilio*
   - newidiadau i'r Weithdrefn Datgelu er Lles y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban).

2) *Cyd-gyfarfod y Pwyllgorau Cyllid ac Adnoddau ac Archwilio*
   Dim

3) *Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau*
   - rheoliadau ariannol, gan gynnwys unrhyw bolisïau ariannol ynddynt
   - trefniadau yswiriant a bancio
   - cynigion gwariant, contractau a cheisiadau grant yn unol â'r rheoliadau ariannol
   - cyllideb flynyddol Undeb y Myfyrwyr

4) *Pwyllgor Diwylliant, Pobl a Gwerthoedd*
   - polisi iechyd a diogelwch
   - polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas â chyflogaeth y sonnir amdanynt yn benodol yn yr Erthyglau Llywodraethu a/neu y gallai arwain o bosib at ddiswyddo cyflogai, heblaw am le mae'r Bwrdd yn pennu'n benodol bod y materion yn cael eu cadw yn ôl am gymeradwyaeth gan y Bwrdd
   - cymeradwyo tâl Deoniaid Cyfadran a Chyfarwyddwyr

5) *Pwyllgor Tâl*

6) Pwyllgorau Apeliadau Disgyblu Staff a Myfyrwyr
   - penderfynu ar apeliadau ar ran y Bwrdd

Is-Ganghellor

Mae gan Fwrdd y Llywodraethwyr y pŵer i ddirprwyo ei gyfrifoldebau i'r Is-Ganghellor yn unol ag Erthygl 5.1. Ar wahân i faterion y gellir eu dirprwyo ar sail ad hoc, mae'r materion canlynol wedi'u dirprwyo'n barhaus;

- cymeradwyo rhestr flynyddol o ffioedd a thaliadau

Cadeirydd y Llywodraethwyr

Mae gan Fwrdd y Llywodraethwyr y pŵer i ddirprwyo ei gyfrifoldebau i'r Cadeirydd neu, yn ei absenoldeb, i'r Dirprwy Gadeirydd. O dan yr Erthyglau Llywodraethu mae gan y Cadeirydd y pŵer i alw cyfarfodydd arbennig o Fwrdd y Llywodraethwyr ar unrhyw adeg.

Mae'r materion penodol canlynol wedi'u dirprwyo;

- gwerthusiad blynyddol yr Is-Ganghellor
- cymryd camau rhwng cyfarfodydd a drefnwyd (ac eithrio pan fydd cyfarfod arbennig yn cael ei alw), ynghyd â llywodraethwr arall, yn unol â'r darpariaethau yn y Rheolau Sefydlog, i gymeradwyo materion sydd i'w cymeradwyo gan y Bwrdd neu un o'i Bwyllgorau, cymeradwyaeth o'r fath i cael ei adrodd i gyfarfod arferol nesaf y Bwrdd neu'r Pwyllgor.

ATODIAD I

DYFYNIAD O'R ERTHYGLAU LLYWODRAETH

3. CYFRIFOLDEBAU BWRDD Y LLYWODRAETHWYR, Y PENNAETH A'R BWRDD ACADEMAIDD

Bwrdd y Llywodraethwyr

(1) Mae Bwrdd y Llywodraethwyr yn gyfrifol am y canlynol:
- (a) pennu cymeriad addysgol a chenhadaeth y Brifysgol a goruchwylio ei gweithgareddau;
- (b) defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau, hyfywedd y sefydliad a'r Gorfforaeth a diogelu ei asedau;
- (c) cymeradwyo amcangyfrifon blynyddol o incwm a gwariant;
- (ch) penodi, graddio, gwahardd dros dro, diswyddo a phennu cyflog ac amodau gwasanaeth deiliaid uwch swyddi ac aseinio ac arfarnu'r Pennaeth a Chlerc i Fwrdd y Llywodraethwyr, os nad yw deiliad y swydd honno yn aelod o staff y Brifysgol;
- (d) gosod fframwaith ar gyfer cyflog ac amodau pob aelod arall o staff.

Y Pennaeth

(2) Yn amodol ar gyfrifoldebau Bwrdd y Llywodraethwyr, y Pennaeth fydd prif weithredwr y Brifysgol a bydd yn gyfrifol am y canlynol:
- (a) gwneud cynigion i Fwrdd y Llywodraethwyr ynghylch cymeriad addysgol a chenhadaeth y Brifysgol, a gweithredu penderfyniadau Bwrdd y Llywodraethwyr;
- (b) trefniadaeth, cyfeiriad a rheolaeth y Brifysgol ac arweinyddiaeth y staff;
- (c) penodi, aseinio, graddio, gwerthuso, atal dros dro, diswyddo, a phenderfynu - o fewn y fframwaith a osodwyd gan Fwrdd y Llywodraethwyr - ar gyflog ac amodau gwasanaeth staff heblaw'r rhai sy'n dal uwch swyddi; ac aseinio a gwerthuso deiliaid uwch swyddi ac eithrio'r Pennaeth a Chlerc Bwrdd y Llywodraethwyr, os nad yw deiliad y swydd honno yn aelod o staff y Brifysgol;
- (ch) penderfynu, ar ôl ymgynghori â'r Bwrdd Academaidd, ar weithgareddau academaidd y Brifysgol, a phenderfynu ar ei gweithgareddau eraill;
- (d) paratoi amcangyfrifon blynyddol o incwm a gwariant, i'w hystyried gan Fwrdd y Llywodraethwyr, ac ar gyfer rheoli cyllideb ac adnoddau, o fewn yr amcangyfrifon a gymeradwywyd gan Fwrdd y Llywodraethwyr; a
- (dd) cynnal disgyblaeth myfyrwyr ac, o fewn y rheolau a'r gweithdrefnau a ddarperir yn yr Erthyglau, atal neu ddiarddel myfyrwyr ar sail ddisgyblu a gweithredu penderfyniadau i ddiarddel myfyrwyr am resymau academaidd.

Y Bwrdd Academaidd

(3) Yn amodol ar ddarpariaethau'r Erthyglau hyn, o ran cyfrifoldeb cyffredinol Bwrdd y Llywodraethwyr, a chyfrifoldebau'r Pennaeth, bydd y Bwrdd Academaidd yn gyfrifol am y canlynol:
- (a) materion cyffredinol yn ymwneud ag ymchwil, ysgolheictod, addysgu a chyrsiau yn y Brifysgol, gan gynnwys meini prawf ar gyfer derbyn myfyrwyr; penodi a diswyddo arholwyr mewnol ac allanol; polisïau a gweithdrefnau asesu ac arholi perfformiad academaidd myfyrwyr;

cynnwys y cwricwlwm; safonau academaidd a dilysu ac adolygu cyrsiau; gweithdrefnau dyfarnu cymwysterau a theitlau academaidd anrhydeddus; a'r gweithdrefnau i ddiarddel myfyrwyr am resymau academaidd. Bydd cyfrifoldebau o'r fath yn destun gofynion cyrff dilysu ac achredu;

(b) ystyried datblygiad gweithgareddau academaidd y Brifysgol a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cefnogi a chynghori'r Pennaeth a Bwrdd y Cyfarwyddwyr ar y materion hyn; a

(c) chynghori ar faterion eraill tebyg y gall Bwrdd y Cyfarwyddwyr a'r Pennaeth eu cyfeirio at y Bwrdd Academaidd.

CRYNODEB O RÔL PWYLLGORAU SEFYDLOG BWRDD Y LLYWODRAETHWYR

1. Pwyllgor Archwilio
   Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am adolygu'r broses ar gyfer sicrhau effeithiolrwydd y systemau ariannol a systemau rheoli mewnol eraill. Mae'n ystyried ac yn cynghori'r Bwrdd ar benodi archwilwyr mewnol ac yn adolygu eu hadroddiadau, gan gynnwys adroddiadau dilynol ar weithrediad a chwmpas ac effeithiolrwydd eu gwaith. Mae'n ystyried ac yn cynghori'r Bwrdd ar benodiad, annibyniaeth ac effeithiolrwydd yr archwilwyr allanol, yn adolygu datganiadau ariannol y Brifysgol a'i his-gwmnïau, ac yn ystyried adroddiadau cynnydd ar feysydd risg sylweddol sy'n effeithio ar y Brifysgol. Mae hefyd yn derbyn adroddiadau gan wasanaeth archwilio'r cyngor cyllido fel y maent yn effeithio ar y Brifysgol ac yn monitro cydymffurfiad â gofynion rheoliadol. Mae'n monitro perfformiad ac effeithiolrwydd yr archwilwyr allanol a mewnol ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd ynghylch eu hailbenodi, lle bo'n briodol.

   Mewn perthynas â'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, mae'n ystyried datganiadau ariannol cyfunol blynyddol y Brifysgol a'i is-gyrff, wedi'u paratoi a'u harchwilio yn unol ag Atodlen 7 o'r Ddeddf Diwygio Addysg ym mhresenoldeb archwilwyr allanol. Bydd yn gofyn i dderbyn sicrwydd gan archwilwyr allanol bod cyfrifon yr is-gyrff wedi'u llunio yn unol â gofynion y Ddeddf Cwmnïau.

2. Cyd-gyfarfod y Pwyllgorau Cyllid ac Adnoddau ac Archwilio
   Mae'r Cyd-bwyllgor yn ystyried datganiadau ariannol cyfunol blynyddol y Brifysgol a'i is-gyrff, wedi'u paratoi a'u harchwilio yn unol ag Atodlen 7 o'r Ddeddf Diwygio Addysg ym mhresenoldeb archwilwyr allanol.

   Ar ôl ystyried unrhyw bwyntiau a godir gan aelodau o'r Cyd-bwyllgor, os yn briodol, bydd argymhelliad i gymeradwyo datganiadau ariannol cyfunol blynyddol y Brifysgol a'i is-gyrff yn cael ei wneud i Fwrdd y Llywodraethwyr gan y Pwyllgor Archwilio, yn seiliedig ar adolygiad o'r canfyddiadau gan yr archwilwyr allanol, a fydd yn galluogi i Fwrdd y Llywodraethwyr gymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Brifysgol

3. Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau
   Mae'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn gyfrifol am gynghori'r Bwrdd ar strategaethau ariannol hir-dymor. Mae'r Pwyllgor: yn cymeradwyo'r rheoliadau ariannol gan gynnwys unrhyw bolisïau ariannol ynddynt; cymeradwyo trefniadau yswiriant a bancio'r Brifysgol; cymeradwyo ac argymell cynigion gwariant, contractau a cheisiadau grant; yn cymeradwyo cyllideb Undeb y Myfyrwyr ar gyfer pob blwyddyn ymlaen llaw ac yn monitro ei wariant. argymell cyllidebau refeniw a chyfalaf blynyddol a rhagolygon mwy hir dymor i'r Bwrdd. Mae'n derbyn adroddiadau rheolaidd ar berfformiad ariannol (refeniw a chyfalaf) a'r sefyllfa ariannol a monitro'r adroddiadau hyn yn erbyn y gyllideb. Mae'n datblygu ac yn cynnal polisi trysorlys a buddsoddi priodol; Mae'n monitro lefelau a gofynion benthyca, hylifedd a'r buddsoddiad o gronfeydd gormodedd yn unol â'r polisi hwnnw ac adrodd i'r Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae'n derbyn adroddiadau a chyfrifon rheolaidd ar weithrediad unrhyw is-gwmni masnachol. Mae'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn argymell Rhaglen Ystadau flynyddol i'r Bwrdd, gan gynnwys yr holl brosiectau cynnal a chadw eiddo ac adeiladu, ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar y bwriad i brynu, gwerthu neu brydlesu eiddo a thir. Mae'n adolygu'r Strategaeth TGCh a'r Strategaeth Ystadau gan gynnwys monitro agweddau ariannol gweithgareddau TGCh ac Ystadau. Mae'n ystyried unrhyw drafodion arwyddocaol eraill ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd.

Mae'n adolygu agweddau ariannol gweithgaredd ymchwil, ac yn adolygu'r risgiau strategol sy'n effeithio ar y Brifysgol ar gyfer y meysydd hynny a gwmpesir gan gylch gorchwyl y Pwyllgor ac unrhyw risgiau penodol a neilltuwyd iddo gan y Bwrdd.

Mewn perthynas â'r Pwyllgor Archwilio, mae'n ystyried datganiadau ariannol cyfunol blynyddol y Brifysgol a'i is-gyrff, wedi'u paratoi a'u harchwilio yn unol ag Atodlen 7 o'r Ddeddf Diwygio Addysg ym mhresenoldeb archwilwyr allanol.

4. Pwyllgor Diwylliant, Pobl a Gwerthoedd

Mae'r Pwyllgor Diwylliant, Pobl a Gwerthoedd yn gyfrifol am oruchwylio sut mae gwerthoedd PDC yn cael eu hymgorffori yn niwylliant y Brifysgol ac ymddygiad ei staff, ystyried sut mae penderfyniadau'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn cyd-fynd ag Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan) a gwerthoedd PDC, ac adolygu'r diwylliant ymhlith y boblogaeth staff a myfyrwyr ac asesu sut mae'r mesurau sydd ar waith yn ymgorffori gwerthoedd PDC yn ymddygiadau cymuned PDC. Mae'n gyfrifol am gymeradwyo polisi iechyd a diogelwch y Brifysgol, ac am adolygu trefniadau ar gyfer iechyd a diogelwch yn y Brifysgol a chynghori'r Bwrdd ar y trefniadau hyn. Mae'n gyfrifol am ddatblygu a chynghori'r Bwrdd ar strategaeth cyflogaeth hir dymor. Ac eithrio pan fo'r Bwrdd yn penderfynu'n benodol bod materion i'w cadw'n ôl i'w cymeradwyo gan y Bwrdd, mae'n cymeradwyo ar ran y Bwrdd y polisïau a'r gweithdrefnau hynny mewn perthynas â chyflogaeth a grybwyllir yn benodol yn yr Erthyglau Llywodraethu a/neu a allai o bosibl arwain at ddiswyddo gweithiwr. Mae'n gyfrifol am wneud argymhellion i'r Bwrdd ar y fframwaith ar gyfer tâl ac amodau staff heblaw'r Is-Ganghellor a deiliaid uwch swyddi eraill, ac mae'n gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar reolau sy'n llywodraethu ymddygiad staff, diswyddo staff a gweithdrefnau cwyno. Mae hefyd yn cynghori'r Bwrdd ar faterion staffio a chyflogaeth eraill gan gynnwys materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb y mae angen i'r Bwrdd benderfynu arnynt, ac yn cynghori'r Bwrdd ar hyrwyddo cyfle cyfartal. Mae'r Pwyllgor yn cynghori'r Bwrdd fel y bo'n briodol ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r Pwyllgor yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar drefniadau penodi aelodau a swyddogion Bwrdd y Llywodraethwyr. Mae'n gyfrifol am ystyried cynllunio olyniaeth ar gyfer aelodau'r Bwrdd a gwerthuso cydbwysedd sgiliau, gwybodaeth ac amrywiaeth y Bwrdd. Mae hefyd yn gyfrifol am wneud argymhellion ynghylch aelodaeth pwyllgorau'r Bwrdd. Mae'n gyfrifol am gynghori'r Bwrdd ar dâl y Gweithrediaeth, ac am gymeradwyo argymhellion gan yr Is-Ganghellor ar dâl Deoniaid Cyfadrannau, Cyfarwyddwyr a swyddi lefel tri cyfatebol sy'n adrodd i aelodau'r Gweithrediaeth. Mae'n adolygu tâl Pennaeth MTC a Phennaeth CBCDC ac yn gwneud argymhellion i Fyrddau Cyfarwyddwyr y Colegau. Mae'n gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar daliadau diswyddo i'r Gweithrediaeth, ac i Glerc y Llywodraethwyr. Mae'n ystyried buddiannau sefydliadol, cynaladwyedd ac enw da yn ogystal â budd y cyhoedd a diogelu cronfeydd cyhoeddus fel rhan o'i ystyriaethau a rhaid iddo gael gwybodaeth gymharol i hysbysu ei benderfyniadau.

5. Pwyllgor Tâl

Mae'r Pwyllgor Tâl yn gyfrifol am gynghori'r Bwrdd ar dâl yr Is-Ganghellor. Mae'n gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar daliadau diswyddo'r Is-Ganghellor. Mae'n ystyried buddiannau sefydliadol, cynaladwyedd ac enw da yn ogystal â budd y cyhoedd a diogelu cronfeydd cyhoeddus fel rhan o'i ystyriaethau a rhaid iddo gael gwybodaeth gymharol i hysbysu ei benderfyniadau.